



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Yn Gryno – Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol



Mae Llywodraeth Cymru am i bawb gael bywydau hir, iach a hapus. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen i ni helpu pobl i edrych ar ôl eu hunain. Rhaid i ni wneud yn siŵr bod y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cywir ar gael i helpu pobl i aros yn iach, i wella pan fyddant yn sâl, neu i fyw'r bywyd gorau posib pan fo ganddynt broblemau na fydd yn gwella.

Llynedd fe wnaethom ni ofyn i grŵp o arbenigwyr roi cyngor i ni am sut i wneud ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (gwasanaethau sy'n helpu pobl sydd angen cymorth ychwanegol) mor dda â phosib. Dywedodd yr arbenigwyr hynny bod angen i ni wneud rhai newidiadau. Yn benodol, dywedwyd bod angen i ni ei gwneud yn haws i'r GIG a gofal cymdeithasol gydweithio gyda'i gilydd. Dylent hefyd weithio gyda gwasanaethau eraill fel addysg a thai. Y bwriad yw helpu pobl i aros yn iach ac yn annibynnol mor hir â phosib. Pan fo pobl angen help gan fod eu hiechyd yn wael, rhaid i'r help hwnnw gael ei ddarparu gan y bobl gywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir.

Mae ein cynllun yn egluro sut y byddwn yn gwneud hyn.

Sut ddylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn y dyfodol:

- Rydyn ni am weld gwasanaethau sy'n helpu pobl i aros yn iach, yn hytrach na dim ond eu trin nhw pan maen nhw'n sâl.
- Pan fydd pobl angen help, bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda nhw a'u hanwyliaid i weld beth sydd orau iddyn nhw, a chytuno ar y ffordd orau o wneud hynny. Rydyn ni'n dweud bod hyn yn 'canolbwytio ar y person'.
- Bydd mwy o wasanaethau yn cael eu darparu y tu allan i ysbytai, yn nes at gartrefi pobl, neu mewn cartrefi. Bydd pobl ond yn mynd i'r ysbyty ar gyfer triniaeth nad oes modd ei darparu mewn ffordd ddiogel yn unman arall. Bydd y 'dull cymunedol' hwn yn helpu i leddfu'r pwysau ar ein hysbytai, cwtogi'r amser aros cyn i bobl gael eu trin, a chwtogi'r amser sy'n rhaid ei dreulio yn yr ysbyty pan fo angen mynd yno.
- Bydd ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn defnyddio'r dechnoleg a'r feddyginiaeth ddiweddaraf i helpu pobl i wella, neu i fyw'r bywyd gorau posib os nad oes modd iddyn nhw wella.



Dyma'r pum prif ffordd rydyn ni am newid iechyd a gofal cymdeithasol:

Ym mhob rhan o Gymru bydd y **system iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio** fel na fydd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn sylwi pan fo gwahanol sefydliadau yn eu darparu. Bydd ffyrdd newydd o weithio mewn ffordd gyson yn dechrau yn lleol ac yn ehangu dros Gymru gyfan. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau lleol yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn rhannu'r hyn maen nhw'n ei wneud, oherwydd rydyn ni am i bawb yng Nghymru gael yr un gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydyn ni hefyd am i wasanaethau ddefnyddio un cofnod electronig er mwyn medru rhoi'r cymorth a'r driniaeth fwyaf priodol ar sail darlun llawn o anghenion y person.

Rydyn ni am **symud gwasanaethau allan o'r ysbyty i'r cymunedau**, ac eisiau mwy o wasanaethau sy'n atal pobl rhag mynd yn sâl drwy ddod o hyd i broblemau yn gynt, neu eu hosgoi yn llwyr. Bydd hyn yn cynnwys helpu pobl i reoli eu hiechyd eu hunain, a rheoli salwch hirdymor. Rydyn ni hefyd am ei gwneud yn haws i bobl gadw'n brysur a bod yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Byddwn yn **gwella'n ffordd o fesur yr hyn sy'n bwysig i bobl**, er mwyn defnyddio hynny i weld pa wasanaethau a thriniaethau sy'n gweithio'n dda a pha rai sydd angen eu gwella. Byddwn yn canfod a chefnogi'r modelau newydd gorau o iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn eu defnyddio'n gynt ar draws Cymru gyfan.

Byddwn yn **gwneud Cymru'n lle gwych i weithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol**, ac yn gwneud mwy i helpu gofalwyr a gwirfoddolwyr. Byddwn yn buddsoddi mewn technoleg newydd a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gadw pobl yn iach, a helpu ein staff i weithio mewn ffordd well. Drwy wneud iechyd a gofal cymdeithasol yn ddewis da o ran gyrfa, buddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau, a chefnogi iechyd a llesiant yn y gwaith, bydd modd i ni ddenu a chadw'r bobl dalentog sydd eu hangen arnom i weithio yng Nghymru. Byddwn yn ceisio cyflwyno datblygiadau digidol sy'n helpu staff i weithio yn fwy effeithiol.

Er mwyn i'n gwasanaethau weithio **fel un system unigol, rhaid i bawb gydweithio** a thynnu i'r un cyfeiriad. Rydyn ni'n credu bod modd gwneud hyn mewn gwlad fach fel Cymru, yn arbennig os byddwn ni fel Llywodraeth yn darparu arweiniad cenedlaethol cryf a sicrhau ein bod yn parhau i drafod a gwrando ar y bobl sy'n darparu a defnyddio ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Sut y byddwn yn talu am hyn?

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddrud iawn, ac mae'n bwysig i ni wneud yn siŵr bod yr holl arian yn cael ei wario mewn ffordd dda a'n bod yn gwneud y defnydd gorau ohono.

Dydy'r arian a gawn gan Lywodraeth y DU ddim yn ddigon i ddarparu'r holl wahanol wasanaethau y mae pobl eu hangen. Mae hynny'n golygu bod angen i ni wneud penderfyniadau anodd am yr hyn y gallwn ei ddarparu, yn arbennig wrth i fwy o bobl fyw yn hirach yn eu henoed. Er mwyn ein helpu i weld sut y gallwn sicrhau bod modd i ni fforddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, byddwn yn gofyn am gyngor gan bobl sy'n gwybod llawer am y pethau hyn.

Beth arall all helpu?

Yn ogystal â meddwl am y GIG a gofal cymdeithasol, byddwn hefyd yn edrych ar yr holl bethau eraill rydyn ni'n gyfrifol amdanynt fel llywodraeth a all wneud gwahaniaeth, fel cymorth i deuluoedd, addysg, tai, cyflogaeth a'r amgylchedd.

Rydyn ni'n gwybod y bydd nifer o'r newidiadau sydd angen eu gwneud yn rai anodd. Er hynny, rydyn ni yng Nghymru yn falch iawn bod y system gofal iechyd a sefydlwyd 70 mlynedd yn ôl gan Gymro enwog, Aneurin Bevan, yn dal i fodoli ac yn darparu bob math o bethau anhygoel nad oedd pobl yn medru eu dychmygu 70 mlynedd yn ôl. Ein gwaith ni nawr yw gwneud popeth sydd ei angen i warchod y gwasanaethau hyn er mwyn iddyn nhw fedru parhau i helpu pobl yn y dyfodol.